



Arolygiaeth
Prawf EF

Cynllun Iaith Gymraeg
Arolygiaeth Prawf EF 2023-2026
Paratowyd o dan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993

Cymeradwywyd gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 20 Chwefror 2024

Cynnwys


Rhagair	3
Cyflwyniad	4
1. Arolygiaeth Prawf EF: pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud	6
2. Cynllunio gwasanaeth	7
3. Cyflenwi ein gwasanaethau	8
4. Cyfathrebu allanol	10
5. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun	12
6. Gweithredu'r Cynllun	13
7. Monitro ac adolygu'r Cynllun	14
8. Ymholiadau neu gwynion	15
Atodiad A	16

Rhagair

Mae'n bleser gennyf gyflwyno fersiwn wedi'i diweddarau o Gynllun Iaith Gymraeg Arolygiaeth Prawf EF. Yn yr Arolygiaeth, rydym wedi ymrwmo i hyrwyddo a hwyluso'r Gymraeg. Mae cyflawni ein hymrwymiaidau o ran y Gymraeg yn flaenoriaeth allweddol i ni. Mae'r cynllun hwn yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiaidau yn ein prosesu arolygu, creiwio staff, hyfforddiant a datblygiad, a thrwy ein dulliau cyfathrebu.

Dywed ein Cynllun Iaith Gymraeg y bydd ein gwaith yng Nghymru yn cael ei ategu gan yr egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal, ymrwymiad i ddarparu gwasanaethau o safon uchel yn Gymraeg, ac arferion gorau yn y defnydd o'r Gymraeg.

Mae'r Cynllun Iaith Gymraeg yn dangos sut y byddwn yn cyflawni ein hymrwymiaidau o dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*. Byddwn yn monitro ein cydymffurfiaeth â'r Cynllun yn rheolaidd, ac yn cyhoeddi adroddiad yn flynyddol sy'n dangos ein cynnydd.



Sue McAllister

Prif Arolygydd Prawf EF Dros Dro

Cefndir

Cafodd Cynllun Iaith Gymraeg gwreiddiol Arolygiaeth Prawf EF ei gymeradwyo gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, fel yr oedd ar y pryd, yn 2011.

Mae'r Cynllun hwn yn disodli unrhyw Gynllun blaenorol, ac fe gafodd ei gymeradwyo a'i gadarnhau gan Gomisiynydd y Gymraeg ar 20 Chwefror 2024. Daeth hefyd i rym ar y dyddiad hwn.

Deddf Iaith Gymraeg 1993

Cyflwynodd *Deddf Iaith Gymraeg 1993* yr egwyddor y dylai'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal mewn bywyd cyhoeddus yng Nghymru. Mae gofyniad ar gyrff cyhoeddus penodedig sy'n darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru baratoi cynllun iaith Gymraeg sy'n dangos y camau y byddant yn eu cymryd i sicrhau eu bod yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal pan fyddant yn darparu eu gwasanaethau.

Mesur y Gymraeg (Cymru)

Cyflwynwyd Mesur y Gymraeg (Cymru) yn 2011 ac roedd yn sefydlu'r egwyddor na ddylai'r Gymraeg, gael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg, yng Nghymru, ac y dylai pobl yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os mai dyna yw eu dymuniad.

Comisiynydd y Gymraeg

Mae'r Mesur yn trosglwyddo swyddogaethau *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* sy'n ymwneud â chynlluniau iaith Gymraeg i Gomisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd).

Prif nod y Comisiynydd yw hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Safonau'r Gymraeg

Mae'r Mesur yn gwneud darpariaeth i bennu safonau ymddygiad mewn perthynas â'r Gymraeg (y safonau). Dros amser, bydd safonau'n disodli'r system o gynlluniau iaith Gymraeg a ddaeth i rym yn sgil Deddf yr Iaith Gymraeg.

Nes daw safonau o'r fath i rym ar gyfer cyrff y Goron, byddwn yn parhau i weithredu Cynllun Iaith Gymraeg ac yn diwygio ein Cynllun presennol bob tair blynedd i gryfhau ei ddarpariaethau.

Statws swyddogol y Gymraeg

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi grym cyfreithiol i statws swyddogol y Gymraeg. Mae'r Cynllun hwn yn ddatganiad o'n cydnabyddiaeth i'r statws cyfreithiol hwn.

Y rhyddid i bobl ddefnyddio'r Gymraeg â'i gilydd

Mae'r Mesur hefyd yn rhoi'r hawl gyfreithiol i bobl yng Nghymru sy'n dymuno defnyddio'r Gymraeg i wneud hynny â'i gilydd. Mae Arolygiaeth Prawf EF yn ymrwmo i sicrhau nad

yw'n amharu ar hawl unigolyn (gan gynnwys ein staff yng Nghymru) i ddefnyddio'r Gymraeg â rhywun arall.

Diben ein Cynllun

Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn disgrifio pa wasanaethau rydym yn eu darparu i'r cyhoedd yng Nghymru, a sut y byddwn yn darparu'r gwasanaethau hynny yn Gymraeg.

Yn unol â *Deddf yr Iaith Gymraeg 1993* a Mesur y Gymraeg (Cymru), dywed ein Cynllun Iaith Gymraeg y byddwn yn:

- gwneud gwaith yng Nghymru sy'n cael ei ategu gan yr egwyddor y bydd y Gymraeg a'r Saesneg yn cael eu trin yn gyfartal
- ymrwymo i ddarparu gwasanaethau o safon uchel yn Gymraeg
- mabwysiadu arferion gorau o ran y defnydd o'r Gymraeg.

Nid yw Arolygiaeth Prawf EF yn darparu gwasanaethau'n uniongyrchol i'r cyhoedd, ac felly mae'r cynllun yn dangos sut y byddwn yn gweithredu'r egwyddor o gydraddoldeb a sefydlwyd yn *Neddf yr Iaith Gymraeg* wrth ddarparu ein gwasanaethau.

Mae'r cynllun felly wedi'i anelu at y sawl sy'n cyflawni gweithgarwch o ddydd i ddydd Arolygiaeth Prawf EF. Mae hyn yn cynnwys y gwasanaethau yr ydym yn eu harolygu a'r unigolion sy'n dod i gysylltiad â'r gwasanaethau hynny. Mae hyn yn cynnwys unigolion dan oruchwyliaeth, rhieni a gofalwyr, dioddefwyr, a gwasanaethau statudol, gwasanaethau anstatudol gwasanaethau a gomisiynir sy'n gweithio mewn partneriaeth.

Mae ein Cynllun yn dangos sut y byddwn yn:

- cyflawni ein hwymedigaethau o dan *Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993*
- monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun yn rheolaidd
- cyflwyno adroddiadau cynnydd yn flynyddol i'r Comisiynydd.

1. Arolygiaeth Prawf EF: pwy ydym ni a'r hyn rydym yn ei wneud

- 1.1 Mae Arolygiaeth Prawf EF yn arolygiaeth annibynnol, a ariennir gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder.

Ein gweledigaeth

- 1.2 Ein gweledigaeth yw sicrhau gwasanaethau prawf a throseddau ieuencid o safon uchel sy'n newid bywydau pobl er gwell.

Ein diben

- 1.3 Mae Arolygiaeth Prawf EF yn arolygiaeth annibynnol sy'n arolygu gwasanaethau prawf a throseddau ieuencid yng Nghymru a Lloegr. Rydym y gosod safonau uchel sy'n amlygu ansawdd ac effaith y gwasanaethau hyn. Mae ein harolygiadau, adolygiadau, ymchwil a chynnyrch arferion effeithiol yn cyflwyno dyfarniadau a chanllawiau awdurdodol sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Rydym yn defnyddio ei llais i hybu newid i'r system, gyda phwyslais ar gynhwysiant ac amrywiaeth. Mae ein gwaith craffu'n arwain at ganlyniadau gwell i unigolion a chymunedau.

Ein gwerthoedd

Dylanwadol

- 1.4 Mae cael effaith positif ar y sefydliadau rydym yn eu harolygu ac ar yr unigolion maent yn gweithio â hwy yn bwysig inni.

Annibynnol

- 1.5 Rydym yn sicrhau bod y dyfarniadau a wnawn yn cael eu hategu gan dystiolaeth a'u bod yn deg ac amhleidiol.

Proffesiynol

- 1.6 Rydym yn gweithio mewn ffordd sy'n dangos parch, sy'n dryloyw a phroffesiynol, gan wrando ar a rhannu dysgu'n fewnol ac allanol.

Cynhwysol

- 1.7 Rydym yn gweithio fel 'Un Arolygiaeth Prawf EF, sy'n gwerthfawrogi ac yn parchu safbwyntiau a sgiliau ein gilydd, fel bod pawb yn teimlo eu bod yn rhan o'r hyn rydym yn ei wneud.

Amrywiol

- 1.8 Rydym yn credu'n angerddol mewn amrywiaeth a'r gwerth sy'n dod drwy roi llais i bawb yn ein harolygiadau a'r cyfle i lwyddo yn ein sefydliad.

2. Cynllunio gwasanaeth

Egwyddor cydraddoldeb

2.1 Mae Arolygiaeth Prawf EF wedi ymrwymo i'r egwyddor y byddwn yn trin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Mae hyn yn berthnasol i'r gwasanaethau arolygu yr ydym yn eu cyflawni ein hunain, ac i'r gwaith a wneir gan eraill ar ein rhan yng Nghymru.

Safon arolygiadau

2.2 Rydym wedi ymrwymo i gyrraedd safonau'r un mor uchel boed yr arolygiad yn cael ei gynnal yn Gymraeg neu'n Saesneg. Byddwn yn monitro pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein harolygiadau.

Cynllunio ein harolygiadau

2.3 Wrth gynllunio arolygiadau, byddwn yn sicrhau:

- bod y defnydd o'r Gymraeg yn cael ei hyrwyddo, a'n bod wedi ymrwymo i gydnabod cyfrifoldebau'r llywodraeth ddatganoledig yng Nghymru
- bod arolygwyr yn canfod ac yn cynllunio ar gyfer anghenion iaith Gymraeg y gwasanaethau sy'n cael eu harolygu a'r rhai yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ystod ein harolygiadau
- ein bod yn cynhyrchu'r holl ddogfennau ysgrifenedig a fydd yn y parth cyhoeddus yng Nghymru, yn Gymraeg a Saesneg
- ein bod yn hyrwyddo ac yn hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Polisiâu, gweithdrefnau a phrosesau arolygu newydd

2.4 Pan fyddwn yn llunio polisiâu, gweithdrefnau a phrosesau arolygu newydd sy'n berthnasol i'n busnes yng Nghymru, byddwn yn cynnal asesiad o'r effaith ar y Gymraeg i wneud yn siŵr ein bod yn hyrwyddo a hwyluso defnydd o'r Gymraeg.

Gweithio ag arolygiaethau eraill

2.5 Mae Arolygiaeth Prawf EF yn arwain arolygiadau o waith prawf a throeddau ieuencid yng Nghymru a Lloegr ac mae'n gweithio ag arolygiaethau cyfiawnder troseddol eraill ac arolygiaethau eraill yng Nghymru. Pan fyddwn yn gweithio ar y cyd ag arolygiaethau eraill yng Nghymru, byddwn yn datgan yn glir ein hymrwymadau o dan y Cynllun hwn.

3. Cyflenwi ein gwasanaethau

- 3.1 Mae egwyddorion cydraddoldeb yn ganolog i'n holl arolygiadau. Bydd pwyslais yng Nghymru ar ddarparu gwasanaeth dwyieithog, sy'n briodol i'r gwaith sy'n cael ei arolygu.
- 3.2 Pan fyddwn yn gweld yr angen am siaradwr Cymraeg, naill ai drwy wybodaeth a geir ymlaen llaw neu yn y cyfarfod cynllunio, bydd timau arolygu'n cynnwys o leiaf un siaradwr Cymraeg.
- 3.3 Darperir gwasanaethau cyfieithu mewn amgylchiadau lle nad oes staff Cymraeg eu hiaith ar gael.
- 3.4 Gellir adnabod arolygwyr sy'n siarad Cymraeg yn ôl bathodynau enw (yn Gymraeg a Saesneg) a'u laniardiau i wneud yn siŵr bod modd i eraill eu hadnabod pan fyddant ar safleoedd arolygu.
- 3.5 Byddwn yn gwahodd adborth ar ddarpariaeth ein gwasanaethau yn y Gymraeg gan y sawl y byddwn yn arolygu eu gwaith.

Staffio a recriwtio

- 3.6 Mae Arolygiaeth Prawf EF yn recriwtio staff o bob rhan o Gymru a Lloegr. Mae ein swyddfeydd yn Llundain a Manceinion; fodd bynnag, mae ein staff yn cael eu lleoli i ddarparu gwasanaeth arolygu ledled Cymru a Lloegr.
- 3.7 Mae ein polisi recriwtio'n rhoi pwyslais cryf ar gynyddu amrywiaeth staff wrth recriwtio arolygwyr. Mae ein cynllun recriwtio wedi'i dargedu yn cynnig mentora, cymorth, a chyfleoedd i arsylwi ar arolygiadau i ddarpar ymgeiswyr drwy gydol y broses recriwtio. Byddwn yn parhau i ymdrechu i gynyddu nifer yr arolygwyr Cymraeg eu hiaith sy'n cael eu recriwtio ac yn targedu ein hysbysebion o fewn gwasanaethau yng Nghymru.
- 3.8 Byddwn yn monitro lefelau staffio ein harolygwyr Cymraeg eu hiaith yn barhaus, gan nodi ar unwaith pan ragwelir swyddi gwag, a bod angen recriwtio.
- 3.9 Cyn recriwtio, bydd ein trefniadau cynllunio'r gweithlu'n ystyried lefelau'r swyddi gwag, y gweithgarwch arolygu arfaethedig a niferoedd y siaradwyr Cymraeg sy'n llenwi swyddi. Byddwn yn asesu a yw'r gallu i siarad Cymraeg yn sgil hanfodol ar gyfer swyddi penodol ac yn llunio'r swydd ddisgrifiadau'n unol â hynny, er enghraifft, i recriwtio arolygwyr Cymraeg y telir ffioedd iddynt.
- 3.10 Os penderfynir yn dilyn asesiad fod y gallu i siarad Cymraeg yn ofyniad ar gyfer swydd, bydd hysbysiadau cyhoeddus hysbysiadau yn y wasg a hysbysebion am y swydd yn ddwyieithog.
- 3.11 Byddwn yn gwneud pob ymdrech i recriwtio arolygwyr sydd â chymwysterau a phrofiad addas a all hefyd gyfathrebu'n Gymraeg. Fodd bynnag, os na fydd aelod o staff Arolygiaeth Prawf EF sy'n siarad Cymraeg ar gael, byddwn yn sicrhau bod cyfieithwyr â chymwysterau priodol ar gael yn ôl yr angen, a all gynnwys defnyddio cyfieithwyr cymeradwy lleol.

Datblygiad a hyfforddiant staff

3.12 I sicrhau bod yr holl staff yn gallu cyflawni ein busnes yn unol â'r Cynllun hwn, byddwn yn:

- archwilio ein staff i ganfod nifer a lefel gallu ein staff sy'n medru siarad, darllen ac ysgrifennu yn Gymraeg (gan gynnwys staff sy'n dysgu Gymraeg)
- trefnu digwyddiadau dysgu fel cyflwyniad i'r Gymraeg i'r holl staff sy'n debygol o wneud gwaith yng Nghymru. Bydd hyfforddiant o'r fath yn cael ei gyflwyno fel rhan o sesiynau cynefino staff a datblygiad a hyfforddiant parhaus y staff. Bydd y sesiynau hyn yn datblygu dealltwriaeth o'n dyletswydd o dan y ddeddfwriaeth, pwysigrwydd diwylliannol y Gymraeg, a sut i ynganu cyfarchion pob dydd elfennol ac enwau Gymraeg
- helpu staff i ddysgu Gymraeg ac i wella eu gallu i siarad ac ysgrifennu Gymraeg os oes angen busnes i wneud hynny
- sicrhau bod staff yn ymwybodol o'n hymrwymadau o dan y Cynllun Iaith Gymraeg a sut y gallant gyfrannu at ei weithredu'n llwyddiannus
- cyhoeddi canllaw i'r holl staff i sicrhau eu bod yn gwybod sut i ddelio â galwadau a gohebiaeth yn Gymraeg, a rhoi manylion am wasanaethau cyfieithu.

4. Cyfathrebu allanol

- 4.1 Byddwn yn mabwysiadu fformat dwyieithog ar gyfer cyfathrebu yng Nghymru, a fydd yn cael ei adlewyrchu yn ein hunaniaeth gorfforaethol a'n brand, ein gohebiaeth, dogfennau a gyhoeddir gennym.

Cyhoeddiadau a hysbysiadau yn y wasg

- 4.2 Byddwn yn sicrhau bod yr holl ffurflenni at ddefnydd y cyhoedd yng Nghymru ar gael yn ddwyieithog.
- 4.3 Bydd hysbysiadau ar gyfryngau cymdeithasol o ddatganiadau i'r cyfryngau yng Nghymru yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg a Saesneg.
- 4.4 Pan fydd yr amserlen yn caniatáu, bydd aelod o staff Cymraeg eu hiaith ar gael i gynnal cyfweiliadau yn Gymraeg â'r cyfryngau
- 4.5 Rydym yn cyhoeddi ein holl adroddiadau ar asiantaethau a arolygwyd yng Nghymru yn Gymraeg a Saesneg
- 4.6 Mae'r holl adroddiadau a gyhoeddir gan Arolygiaeth Prawf EF yn ddogfennau cyhoeddus a gellir eu gweld ar ein gwefan:
<https://www.justiceinspectrates.gov.uk/hmiprobation/>
- 4.7 Mae'r wefan yn cynnwys tudalen yn Gymraeg, lle mae fersiynau Cymraeg o adroddiadau diweddar a dogfennau arolygu allweddol eraill ar gael.

Gohebu â'r cyhoedd

- 4.8 Byddwn yn sicrhau bod unrhyw ohebiaeth gyhoeddir gennym ni ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru yn ddwyieithog. Bydd hyn yn cynnwys taflenni ac unrhyw wybodaeth gyffredinol arall.
- 4.9 Byddwn hefyd yn sicrhau bod:
- pob gohebiaeth a geir yn Gymraeg, gan gynnwys gohebiaeth gan y cyhoedd, yn cael ei hateb yn Gymraeg
 - gohebiaeth a geir drwy e-bost yn cael ei thrin yn unol â'r un egwyddorion. Fodd bynnag, rhaid cydnabod ei bod yn annhebygol y bydd derbynnydd yr ohebiaeth yn medru darllen a llunio ymateb yn Gymraeg. Yn yr amgylchiadau hyn, bydd y derbynnydd yn anfon e-bost cydnabod cychwynnol yn Gymraeg, tra bydd yr ohebiaeth yn cael ei hanfon i gael ei chyfieithu i'r Saesneg.
 - Byddwn yn ymateb o fewn 20 diwrnod gwaith, yn unol â'r amser ymateb a nodir yn Neddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, a hynny yn iaith wreiddiol yr ohebiaeth a gafwyd. Mae hyn yn golygu y byddwn yn ymateb yn Gymraeg i unrhyw ohebiaeth a anfonir atom yn Gymraeg, drwy gopi caled neu e-bost, o fewn yr un amserlen ag unrhyw lythyr copi caled neu ohebiaeth e-bost arall a ysgrifennwyd yn Saesneg.

Galwadau ffôn â'r cyhoedd

- 4.10 Nid ydym yn gweithredu system switsfwrdd yn ein swyddfeydd ym Manceinion na Llundain. Mae galwadau ffôn felly'n debygol o fynd i linellau uniongyrchol unigol a byddant yn cael eu hateb yn Saesneg. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod ein dyletswydd i ddarparu gwasanaeth i siaradwyr Cymraeg; felly, bydd y galwr yn cael y dewis o naill ai barhau â'r sgwrs yn Saesneg neu ysgrifennu atom, a byddwn yn paratoi ymateb ysgrifenedig yn Gymraeg o fewn yr amserlen y cyfeirir ati uchod.
- 4.11 Bydd nifer y galwadau ffôn a'r ohebiaeth ysgrifenedig a geir yn Gymraeg yn cael eu monitro a'u cofnodi i ddibenion archwilio ac adrodd.

Cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru

- 4.12 Nid yw Arolygiaeth Prawf EF yn cynnal cyfarfodydd â'r cyhoedd yng Nghymru a Lloegr. Fodd bynnag, gall ein prosesau arolygu olygu y byddwn weithiau'n cwrdd ag aelodau o'r cyhoedd sy'n gysylltiedig â sefydliadau statudol a gwirfoddol sy'n gweithio mewn partneriaeth â'r Gwasanaeth Prawf a thimau troseddau ieuencid. Gallwn hefyd gwrdd â phobl sy'n derbyn y gwasanaethau hyn, a all gynnwys unigolion o dan oruchwyliaeth, dioddefwyr a rhieni/gofalwyr.
- 4.13 Os byddwn yn cynnal cyfarfodydd a digwyddiadau yng Nghymru, byddwn yn rhoi cyhoeddusrwydd iddynt yn Gymraeg a Saesneg ac yn ei gwneud yn amlwg y bydd croeso i gyfranogwyr gyfrannu yn y naill iaith neu'r llall. I gynorthwyo â threfniadau, byddwn yn gwahodd unrhyw un sy'n bwriadu bod yn bresennol i adael inni wybod o leiaf bythefnos ymlaen llaw a ydynt yn bwriadu siarad yn Gymraeg neu Saesneg.
- 4.14 Pan fyddwn yn gwybod mai'r Gymraeg yw'r iaith a ffefrir, byddwn yn sicrhau bod un o'n harolygwyr Cymraeg eu hiaith yn bresennol, neu byddwn yn darparu gwasanaethau cyfieithydd. Pan fydd gwasanaethau yn Gymraeg ar gael mewn cyfarfod, byddwn yn arddangos arwydd sy'n dangos bod croeso i ymwelwyr siarad yn Gymraeg, a bydd y sawl sy'n cadeirio'r cyfarfod yn cyhoeddi bod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- 4.15 Rhoddir canllawiau i staff ar y weithdrefn i'w dilyn wrth drefnu cyfarfodydd yng Nghymru ag unigolion neu grwpiau y gwyddom fod yn well ganddynt gyfathrebu yn Gymraeg neu rai nad yw eu dewis iaith yn hysbys.

5. Rhoi Cyhoeddusrwydd i'r Cynllun

5.1 Bydd Arolygiaeth Prawf EF yn:

- sicrhau bod ein holl staff yn ymwybodol o'r Cynllun ac yn deall ei egwyddorion
- cyhoeddi'r Cynllun ar ein gwefan ac yn rhannu'r ddolen â'r holl wasanaethau yng Nghymru yr ydym yn arolygu eu gwaith i sicrhau bod cyrff cyhoeddus a'r cyhoedd yr ydym yn dod i gysylltiad â hwy yn ymwybodol o'r Cynllun
- cyhoeddi adolygiad o'r Cynllun ar ein gwefan
- cyhoeddi ein Hadroddiadau Blynyddol yn Gymraeg a Saesneg ar ein gwefan.

6. Gweithredu'r Cynllun

6.1 Rydym yn rhoi pwyslais mawr ar ein Cynllun ac yn ymdrechu i'w weithredu'n dda. Y Prif Arolygydd sydd â chyfrifoldeb cyffredinol am y Cynllun, ac mae ei weithrediad o ddydd i ddydd yn cael ei ddirprwyo i swyddog arweiniol y Cynllun Iaith Gymraeg a fydd yn gyfrifol am:

- adrodd yn rheolaidd ar y Cynllun i'r Prif Arolygydd a'r uwch dîm arwain
- sicrhau bod yr holl aelodau newydd staff yn gyfarwydd â'r Cynllun, a'u bod yn gallu cael gfael ar gopi ohono
- sicrhau bod staff yn cael hyfforddiant a datblygiad priodol
- gweithredu fel y pwynt cyswllt cyntaf a chynghorydd i'r staff, asiantaethau allanol, a'r cyhoedd, fel sy'n briodol
- monitro cydymffurfiaeth â'r Cynllun, cyhoeddi adroddiad yn flynyddol, a gwerthuso'r Cynllun bob tair blynedd.

7. Monitro ac adolygu'r Cynllun

- 7.1 Wrth sicrhau'r egwyddor o gydraddoldeb i'r Gymraeg a'r Saesneg yn ein harolygiadau, bydd swyddog arweiniol y Cynllun Iaith Gymraeg yn gyfrifol am ei weithredu a'i fonitro a bydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt cyntaf a chynghorydd i'r staff a'r cyhoedd.
- 7.2 Bydd Arolygiaeth Prawf EF yn monitro i ba raddau mae'r ymrwymadau a geir yn y Cynllun yn cael eu cyflawni ac yn cofnodi'r galw am wasanaethau yn Gymraeg, gan gynnwys unrhyw alw am wasanaethau sy'n mynd y tu hwnt i'r ymrwymadau a wnaed gennym. Os na fyddwn yn cyflawni'r ymrwymadau a nodir yn ein Cynllun, byddwn yn egluro'r camau rydym yn bwriadu eu cymryd i gywiro hyn.
- 7.3 Byddwn yn cynhyrchu adroddiad blynyddol sy'n seiliedig ar y gwaith monitro uchod. Bydd yr adolygiad yn cynnwys gwybodaeth am:
- cynllunio a darparu gwasanaethau
 - delwedd gyhoeddus y sefydliad
 - cyfathrebu ehangach
 - hyfforddiant a datblygiad staff
 - trefniadau'r dyfodol.
- 7.4 Bydd copi o'r adroddiad blynyddol yn cael ei anfon at Gomisiynydd y Gymraeg a bydd yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.
- 7.5 Pe bai angen inni adolygu neu gynnig gwelliannau i'r Cynllun hwn, byddwn yn gwneud newidiadau gyda chymeradwyaeth Comisiynydd y Gymraeg.

8. Ymholiadau neu gwynion

- 8.1 Byddwn yn delio ag unrhyw ymholiadau, awgrymiadau neu gwynion am ein Cynllun Iaith Gymraeg, neu ymddygiad ein harolygwyr yng Nghymru, yn unol â'n gweithdrefn gwyno gyhoeddus, sydd ar gael yn Gymraeg a Saesneg.
- 8.2 Yn y lle cyntaf, gwahoddir y cyhoedd i gysylltu:

Drwy'r post

HM Inspectorate of Probation
1st Floor
Manchester Civil Justice Centre
1 Bridge Street West
Manchester M3 3FX

E-bost

HMIP.enquiries@hmiprobation.gov.uk

Yr amserlen ar gyfer gweithredu

- 8.3 Mae'r cynllun yn Atodiad A yn dangos y camau rydym yn eu cymryd i sicrhau bod ein Cynllun Iaith Gymraeg yn cael ei weithredu'n llawn ac yn drylwyr.

Atodiad A

Cam Gweithredu	Dyddiad targed
Penodi swyddog cyfrifol	Cwblhawyd
Cyhoedduswydd i'r Cynllun ymhlith yr holl staff	O ddyddiad ei gymeradwyo
Darparu hyfforddiant i staff	O fewn 12 mis i'w gymeradwyo
Cyhoeddi adroddiadau a deunydd yn unol â'r Cynllun	Parhaus ac o ddyddiad ei gymeradwyo
Hysbysu pob asiantaeth a arolygir gennym a'r arolygiaethau rydym yn gweithio â hwy o'r Cynllun newydd	O fewn tri mis i'w gymeradwyo
Sicrhau bod staff yn ystyried ac yn dilyn y Cynllun hwn wrth gyflawni eu gwaith yng Nghymru	Parhaus ac fel sy'n ofynnol o ddyddiad ei gymeradwyo
Parhau i fynd ati i recriwtio staff cyflogedig Cymraeg eu hiaith a defnyddio arolygwyr Cymraeg y telir ffioedd iddynt, yn ôl yr angen	Parhaus ac fel sy'n ofynnol o ddyddiad ei gymeradwyo
Sicrhau bod prosesau wedi'u sefydlu i fonitro gweithredu'r Cynllun	O ddyddiad ei gymeradwyo
Sicrhau y glynir wrth drefniadau monitro ac adrodd blynyddol	Yn flynyddol